
Pris: 50c

# Papur Pawb

Mehefin 2021 Rhif 470



"Mae'n braf gweld pawb yn cael y rhyddid i fynd lle fynnan nhw o'r diwedd !"

tud 3 Pobl a Phethe
tud 9 Kilimanjaro
tud 10 Dan Do
tud 12 Golff

# AR AGOR!

**Gyda llacio rheolau COVID ers canol Mai mae'n bosib i fusnesau lletygarwch a sefydliadau cyhoeddus ail agor a chroesawu cwsmeriaid unwaith eto. Ac o ddydd Llun 7 Mehefin gall hyd at 30 o bobl gyfarfod yn yr awyr agored a gellir cynnal gweithgareddau awyr agored mawr. Bydd modd hefyd gynyddu maint aelwydydd estynedig hyd at dair aelwyd. Bu'r misoedd dan glo yn anodd ond yn sgil y newidiadau gall busnesau a sefydliadau lleol feddwl o'r diwedd am ddychwelyd at ryw fath o normalrwydd.**

**Gareth a Beverley – Y Llew Gwyn**




Mae gan Gareth brofiad o ddeugain mlynedd fel tafarnwr gydag wyth o rheiny yn y Llew Gwyn. Bu'r dafarn ar gau am ddeng mis ac yn ystod y cyfnod gweithiodd Gareth yn galed i gynnal y fusnes drwy gynnig prydiau tec-awe. Yr adeg mwyaf anodd oedd Nadolig 2020 pan fu raid cau ar rybudd byr. Yn naturiol i baratoi at gyfnod y dathlu roedd Gareth wedi archebu cwrw ychwanegol ond bu rhaid taflu'r cyflenwad a wynebu'r golled. Mae'n barnu iddo ddioddef yn agos at £5,000 o golled o ran nwyddau caled yn ystod y cyfnod clo.

Nid oes ganddo ond canmoliaeth i'r gymuned am ei chefnogaeth. Mae hefyd yn canmol yr help ariannol a dderbyniodd gan Lywodraeth Cymru yn neilltuol am y cyfraniad at gyflog staff drwy'r cynllun ffyrlo. Gostyngwyd rhent y Llew Gwyn gan Marstons – ffactor allweddol. O ganlyniad i hyn oll llwyddwyd i oresgyn anawsterau'r cyfnod clo a pharatoi am y dyfodol.

Ers agor mae Gareth wedi gweld y cwsmeriaid yn dychwelyd – yn araf i ddechrau ond gyda'r niferoedd yn cynyddu. Er fod rhai yn nerfus i fynd i'r dafarn mae 'na deimlad cryf o awydd i droi allan a gweld hen ffrindiau. Tra'n croesawu cwsmeriaid mae'n gyson ofalus ac yn rhybuddio pawb i gadw at y rheolau. Mae'n dweud fod paratoi a gweini bwyd yn ganolog ac roedd Gareth yn browd o ddatgan fod pob bwrdd yn llawn ar gyfer cinio Sul dros yr wythnosau nesaf.

**Ieuan Morgan – Y Neuadd Goffa**

Patrwm o agor lan yn ara' bach, dyna'r bwriad yn y Neuadd Goffa. Ar hyn o bryd dim ond y neuadd fawr sy ar gael ac wrth gwrs oherwydd ei maint nid oes problem cadw'r pellter angenrheidiol. Nid yw'r gegin na'r neuadd fach ar gael i'w llogi. Mae cyfleusterau hylendid a heintio dwylo wedi'u paratoi.

Yn ôl Ieuan mae defnyddwyr yn dechrau dychwelyd i gynnal pwyllgorau. Eisoes cynhaliwyd pwyllgorau Cymdeithas Treialon Cŵn Defaid a Phwyllgor y Sioe ac mae Merched y Wawr yn bwriadu cwrdd yn y dyfodol agos. Yn naturiol mae llai o alw dros yr haf a rhaid aros tan fis Medi i weld ail-gydio yn yr arfer o ddefnyddio'r Neuadd fel man cyfarfod.

Gwelwyd colli incwm ac roedd Ieuan yn ddiolchgar am y cymorth ariannol a ddaeth o Lywodraeth Cymru drwy law y Cyngor Sir.

**Chris Walton – Y Wildfowler**




Roedd Chris yn falch o weld yr hen wynebau'n troi mewn i'r dafarn unwaith eto. Mae hefyd yn cydnabod bod ymwelwyr yn allweddol i'r Wildfowler ac yn pwysleisio pwysigrwydd *staycation* – yr arfer o gymryd gwyliau adref yn hytrach na thramor. Llynedd ar adeg pan oedd modd croesawu cwsmeriaid buddsoddwyd mewn pabell ger mynedfa'r dafarn. Mae hon eto ar ei thraed gyda lle i chwech ar hugain i eistedd i gael diod a phryd o fwyd. Mae dewis tu allan a thu mewn ar gael felly gyda'r babell efallai yn apelio at y rhai sy ddim eto am fentro i'r dafarn ei hun. Drwy'r cyfan mae Chris a'i wraig Michelle yn hynod wyliadwrus ac yn ymwybodol fod ganddynt gyfrifoldeb dros ofal y cwsmeriaid a'r staff. Pabell tu allan a'r lolfa tu mewn ar ei newydd wedd, dwy enghraifft o gynllunio a buddsoddi am y dyfodol. Y cyfan sy angen nawr yn ôl Chris yw tywydd da – rhywbeth na ellir ei gynllunio na'i drefnu! **Parhau ar tud. 2....**

## Papur Pawb


**Golygydd Cyffredinol:**
Gwyn Jenkins
**(01970) 832560**
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
**golygydd@papurpawb.com**

**Tynnu lluniau:**
Cysyllter â golygyddion y mis

**GOHEBYDDION LLEOL**

**Tal-y-bont:**
Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont
**832592**

**Parsel Henllys:**
Rhys Huws, Llwyn Onn
**832076**

**Bont-goch:**
Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch
**832566**

**Llangynfelyn:**
Nigel Callaghan, Hafan, Tre Taliesin
**832573**

**Eglwysfach/Ffwrnais:**
Non Griffiths
**(01654) 781264**

**Rhwydweithiau cymdeithasol:**
Ceri Morgan

**CYMDEITHAS PAPUR PAWB**
**Cadeirydd:**
Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont
**832697**

**Is-gadeirydd:**
Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch
**832566**

**Ysgrifennydd:**
Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont
**832344**

**Trysorydd:**
Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont
**832093**

**Tanysgrifiadau:**
Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont
**832448**

**Hysbysebion:**
Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont

**Dylunio:**
Iolo Ap Gwynn, Ceri Jones, Sion Pennant

**Plygu'r Papur:**
Gwenllïan Parry-Jones; Beti Jenkins

**Dosbarthwyr:**
Lynn Ebenezer; Gwenllïan Parry-Jones; Carys Briddon, Bob Williams

*Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.*

CYMRAEG

am yr holl wybodaeth am Bapur Pawb ewch at ein gwefan...
**www.papurpawb.cymru**
hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyfr (@papurpawb)



**James Memorials**

Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU

*Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim*

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111


# Llythyr

## Taith Gerdded yr Wythnos: Cylchdaith Ffwrnais



Annwyl ddarllenydd,
Mae ymgyrch Taith Gerdded yr Wythnos Cyngor Sir Ceredigion wedi ailddechrau, ac un llwybr sy'n cael sylw yn y gyfres yw cylchdaith Ffwrnais yng ngogledd y sir.

Mae'r daith deuluol hon yn gyfle i ryfeddu at olygfeydd godidog Ynyslas a Gwarchodfa Natur Genedlaethol Dyfi. Mae'r daith yn eich tywys trwy safle RSPB Ynyshir, sy'n ymestyn o lannau afon Dyfi hyd at y bryniau uwchlaw Ffwrnais.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn ymgyfarwyddo ag unrhyw ganllawiau cyfredol, lleol ynghylch teithio i wneud ymarfer corff.

Cofiwch hefyd gadw pellter cymdeithasol bob amser, parchu'r amgylchedd a dilyn y Cod Cefn Gwlad.

Ewch i dudalen Archwilio Ceredigion ar wefan y Cyngor am fwy o wybodaeth: **www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/yr-arfordir-a-chefn-gwlad/archwilio-ceredigion/crwydro-a-farchogi/**.

Gallwch hefyd anfon neges e-bost i **Countryside@ceredigion.gov.uk** neu ffonio 01545 570881 a gofyn am gael siarad ag aelod o'r tîm Arfordir a Chefn gwlad.
Pob hwyl ar eich taith!

Cofion gorau
Tîm Cyfathrebu, Cyngor Sir Ceredigion

## AR AGOR ......Parhad o tud. 1.

**Karen Evans – Rheolwr Cletwr**




Y peth mwyaf anodd i Karen yn ystod y cyfnod clo oedd rhoi'r staff ar ffyrlo. Mae Cletwr yn cyflogi ugain o staff, bron pawb yn byw o fewn dalgylch o ddeg milltir mewn ardal prin ei swyddi. Cysylltwyd gyda dau grŵp yn ystod y cyfnod clo sef y staff i ganfod beth oedd yn bosib o ran dyletswyddau ac amodau gwaith a gyda'r cwsmeriaid i weld beth oedd eu anghenion. Gweithiwyd yn galed i gynnal y fusnes ac yn eironig yn ôl Karen canfuwyd cwsmeriaid newydd na wyddai am yr hyn gallai Cletwr ei gynnig. Proses felly o wrando ag ymateb ac roedd Karen hefyd yn uchel ei chanmoliaeth o gefnogaeth y gymuned leol.

Ers agor yng nghanol Mai bu'r siop a'r caffi yn eithriadol o brysur, mor brysur ag y byddai yng nghanol tymor yr haf. A nawr daeth her arall – cadw balans rhwng diogelwch a rheoli'r llif wrth y drws. Mae'r caffi yn cynnig bwydlen gyfyngedig ac ar adegau rhaid gofyn i gwsmeriaid aros hyd nes y daw bwrdd yn wag. Fel rheolwr mae Karen yn gorfod cynllunio o fewn ffrâm hir dymor – paratoi am brysurdeb heddiw ac yfory tra'n meddwl am dawelwch yr Hydref.

A dyna mewn gwirionedd ein dyletswydd ni fel cwsmeriaid. Cefnogi nawr a dal i gefnogi y busnesau a'r sefydliadau a fu mor driw i'r gymuned.

## DYDDIADUR

**Mehefin**

13 **Bethel** 10 Gwilym Tudur (C)
14 **Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch.** Orig yng Nghwmni Sian Stacey – Neuadd Goffa am 2 y.p.
20 **Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30 Cymun Bendigaid (Andrew Loat)
27 **Bethel** 10 Geraint Evans
**Rehoboth** 10 Beti Griffiths

**GORFFENNAF**

11 **Bethel** 10 Gwilym Tudur (C)
18 **Rehoboth** 2 Gweinidog
25 **Bethel** 10 Geraint Evans

**AWST**

8 **Rehoboth** 10 Gweinidog

**DYDDIADUR**

Cofiwch anfon manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad at Carys Briddon, carysbriddon@btinternet.com 01970 832478 o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o'r papur.

**GOLYGYDDION**

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Eirian a Geraint Evans, gydag Iolo'n dylunio. Diolch iddynt.
Dyma'r rhifyn olaf o *Bapur Pawb* y bydd Eirian a Geraint yn ei olygu gan eu bod wedi mynegi eu dymuniad i roi'r gorau i'r gwaith eleni. Maent wedi cyfrannu'n fawr i'r papur bro dros flynyddoedd lawer a mawr yw ein dyled iddynt.
Bydd *Papur Pawb* yn cael hoe dros yr haf gan ddychwelyd ym mis Medi. Y dyddiad cau ar gyfer y rhifyn hwnnw yw 3 Medi a bydd ar werth ar 10 Medi. Y golygyddion fydd Fal a Gwyn Jenkins (golygydd@papurpawb.com).


**Iwan Jones**
Gwasanaethau Pensaerniol
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ
**helen.iwan@btinternet.com**
01970 832760

# Pobl a Phethe


**Penblwydd**
Dymuniadau gorau i Simon-Lloyd Williams, Tynewydd, Bont-goch ar ddathlu penblwydd arbennig ar 29 Mai.

**Ymddeoliad**
Ymddeoliad hir, hapus a haeddiannol i Geraint a Nicola Jones, Brynolwg, Bont-goch. Diolch iddynt am flynyddoedd o wasanaeth effeithiol gan eu cwmni Abba Drains Cyf.

**Dyweddïad**
Llongyfarchiadau calonnog i Llion a Catrina, Maes y Dderwen, Ffwrnais sydd wedi dyweddïo yn ddiweddar. Dymunwn bob llwyddiant ac hapusrwydd iddynt yn y dyfodol.

**Marwolaeth**
Trist yw cofnodi marwolaeth Rob Mair, gynt o Faesnant, Eglwysfach  oedd wedi cyrraedd oedran teg o 94 oed. Ers colli ei wraig, Margaret, yn 2012 , symudodd i fyw gyda'i ferch yn Swydd Gaerlŷr. Treuliodd flynyddoedd yn gweithio yn y Weinyddiaeth Amaeth yn Nhrawscoed. Bu'r ddau yn weithgar iawn yn y gymuned, yn enwedig yn yr Eglwys, lle roedd Rob yn Warden. Ei brif ddiddordebau oedd garddio a chwarae golff.

**Dawns Elan**
Fel rhan o weithgareddau EisteddfodT yr Urdd eleni bu grwpiau o bobl ifanc ar draws Cymru yn arbrofi gyda'r celfyddydau i greu perfformiadau newydd a chyffrous. Gofynnwyd i Elan Elidyr, Simne Wen Tal-y-bont greu dawns i gyd-fynd ag un o'r prosiectau hyn lle roedd cerddoriaeth draddodiadol ac electroneg yn cyfuno i greu fersiwn newydd sbon o'r gân Ffarwel i Aberystwyth. Cyfraniad Elan oedd creu coreograffi a pherfformio'r ddawns i ddarlunio'r trac. Fe'i gwelwyd ar S4C yn ystod yr wythnos yn perfformio'r ddawns a chafodd hi hwyl garw!
Mae Elan yn edrych ymlaen yn fawr i gael perfformio mewn theatrau unwaith eto ac fe fydd hi (a bwrw bod sefyllfa Covid yn caniatau ) yn perfformio sioe Gwrach yr Iâ yn Theatr Clwyd ddiwedd Gorffennaf. Pob dymuniad da iddi hi.



## Dathlu Priodas Aur

Llongyfarchiadau i Arvid a Gwenllian Parry Jones, Isallt, Tal-y-bont fydd yn dathlu eu priodas aur ar y 12fed o Fehefin. Pob dymuniad da iddynt.

**Sioe Tal-y-bont**
Mae Pwyllgor y Sioe yn falch o gyhoeddi y bydd Sioe Tal-y-bont yn cael ei chynnal yn 2021! Yn dilyn llwyddiant y Sioe Ar-lein y llynedd mae'r Pwyllgor yn awyddus i gynnal yr un math o ddigwyddiad eleni eto, er mwyn galluogi pawb i fwynhau a chymryd rhan yn ddiogel. Bydd adrannau'r Babell yn cael eu cynnal ar-lein yn ogystal ag adrannau'r anifeiliaid. Mae'r Pwyllgor yn dal i drafod a fydd modd trefnu digwyddiad o ryw fath yn yr awyr agored ac os bydd canllawiau'r Llywodraeth yn caniatáu, y bwriad yw ystyried cynnal rhai dosbarthiadau yn adrannau'r da byw ar y cae. Yn y cyfamser cadwch lygad ar gyfrif Facebook y Sioe am ragor o fanylion. Hefyd mae gwefan newydd ar y ffordd.

**Arddangosfa**
Llongyfarchiadau i Brigid Rose, Penrow, Bont-goch ar gwblhau cwrs sylfaen celf a chynllunio yng Ngholeg Ceredigion. Mae Brigid ymhlith un ar bymtheg o fyfyrwyr a fydd yn dangos eu gwaith mewn arddangosfa yn y Coleg rhwng 8 – 18 Mehefin. Nid oes sicrwydd eto, oherwydd y cyfyngiadau presennol, os bydd modd ymweld â'r arddangosfa mewn person, ond gwneir cyhoeddiad am hynny yn fuan. Fodd bynnag, fe fydd modd mwynhau'r arddangosfa yn rhithiol ar ôl 25 Mehefin ar wefan Coleg Ceredigion. Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Brigid.

**Wal Goch**
Braf gweld Phil Hatfield, Sŵn-y-Gwynt, Bont-goch yn gwneud ymddangosiad ar raglen y Wal Goch ar S4C yn dilyn ei enwogrwydd wrth iddo wthio ei fab Osian i wneud arbediad yn y gôl. Bydd llawer yn cofio'r fideo a gafodd gryn sylw ar y cyfryngau cymdeithasol.

**Genedigaeth**
Croeso i Eligh Sion mab bach i Liam Kelly a Ceri Mayes. Llongyfarchiadau i Dadcu a Mamgu sef Paul a Wendy Kelly Maes-y-deri Tal-y-bont.

**Penblwyddi arbennig**
Pob dymuniad da i Nerys Shelton, Tegfan, Tre'rddol, Owain Jones Coed y Crib Tal-y-bont a Karen Evans Maes- y- Deri, Tal-y-bont ar ddathlu penblwyddi arbennig yn ddiweddar.

**Cydymdeimlad**
Trist yw cofnodi marwolaeth Henry Davies Nant-y-Mynydd, Tre'rddol. Cydeimdeimlir â'i briod Veronica a'i blant Philip a Mandy a'u teuluoedd.

Bu farw Sheila, merch i Pat a'r diweddar Allan Joseph, gynt o Rhoslan Tal-y-bont a chwaer i Mark, Paul a Tracey. Cydymdeimlwn â'r teulu oll.

**Croeso**
Estynnwn groeso i Linda Tyley a Jon Cook sydd newydd symud o ardal Derby i Glanceulan Tal-y-bont.


Rhian
trin gwallt gartref
25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553

# Ysgol Tal-y-bont



### Wythnos Iechyd Meddwl Plant

**Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi bod yn rhoi sylw cyson i drafod emosiynau mewn gwersi sy'n canolbwyntio ar iechyd meddwl y plant. Rhaid talu teyrnged mawr iddynt am lwyddo i addasu i'r holl gyfyngiadau cymdeithasol mor ddiffwdan ac am ymdopi mor arbennig i'r holl newidiadau cyson. Nod Wythnos Iechyd Meddwl Plant oedd cefnogi iechyd meddwl a lles emosiynol y plant mewn modd cynhaliol gan bwysleisio bod trafod teimladau a phryderon yn gallu helpu mewn awyrgylch o ymddiriedaeth a pharch. Dyma blant dosbarth Miss Morris yn creu baneri ar sut i gadw corff a meddwl iach.**

## Y Gwanwyn

**Planhigion**

**Rydym wedi bod yn ffodus iawn dros yr wythnosau diwethaf i dderbyn rhoddion caredig gan y gymuned. Yn gyntaf, derbyniwyd sach o hadau blodau gwyllt gan Gwmni Bwyd Castell Howell i'w plannu yn yr ardd. Mae pwyslais mawr ar ddefnyddio'r ardal allanol fel rhan o'r cwricwlwm ac rydym yn edrych ymlaen i weld y blodau'n tyfu er mwyn denu bywyd gwyllt i'r ardd cyn diwedd y tymor.**

**Mae hi bob amser yn bleser cadw cysylltiad gyda chyn-ddisgyblion yr ysgol ac rydym yn ddiolchgar iawn i Nia a Chwmni Greenacres, Ynys-las am y planhigion tomatos a gyrhaeddodd**



Plannu!



Tomatos

## Coginio

**Thema'r Dosbarth Derbyn am yr hanner tymor yma oedd Dinosoriaid. Cafodd pawb amser hyfryd yn creu bisgedi blasus mewn siapiau dinosoriaid. Ond wrth gwrs y pleser mwyaf oedd eu bwyta!**

Cafodd Blwyddyn 3 a 4 hefyd gyfle i baratoi bwyd. Y tro yma buodd y plant yn creu cacennau cnau coco Eid i ddathlu diwedd Ramadan.



Bisgedi blasus



Cacennau cnau coco Eid

**Anifeiliaid**

**Mae Blwyddyn 1 a 2 wedi bod yn brysur yn dysgu ffeithiau am wenyn ac ieir fach yr haf yn ystod mis Mai.**

Dathlwyd Diwrnod Gwenyn y Byd ar ddydd Iau Mai 20, drwy ddysgu ffeithiau am wenyn a deall pwysigrwydd gwenyn yn yr eco-system. Mwynhaodd y plant wylio fideo a gwrando ar stori *Criw'r Coed a'r Gwenyn Coll* gan Carys Glyn sy'n cyflwyno materion newid hinsawdd mewn ffordd ddiddorol a dealladwy. Maent wedi dysgu pa mor bwysig yw plannu blodau gwyllt er mwyn helpu'r gwenyn. Uchafbwynt y dysgu oedd creu rap dosbarth i ddathlu gwaith y gwenyn! (Gweler tudalen 5).



Cylch bywyd iâr fach yr haf.

## Rap Gwaith y Gwenyn

Mae'r gwenyn yn diflannu
Ac mae angen i ni blannu!
Blodau gwyllt a blodau haul
Blodau pinc a blodau aur.

I wneud i'r blodau dyfu
Mae angen haul i wenu
Hefyd rhaid cael glaw
Ac angen pridd a baw.

Mae pawb yn hoffi gwenyn
A brechdan mel a menyn
Hadau bach i blannu
A daw'r gwenyn nol i ni.

Anifail arall sy'n dibynnu ar flodau gwyllt yw'r iâr fach yr haf wrth gwrs. Cafodd y plant anrheg hyfryd ar ddechrau'r tymor, sef cawell arbennig i arsylwi ar gylch bywyd iâr fach yr haf. Bu'r plant yn cofnodi'r newid o wy i lindys i'r crysalis ac yna'r wefr o weld y pili pala yn hedfan i ffwrdd. Oeddech chi'n gwybod?:
Dydy iâr fach yr haf ddim yn gallu clywed.
Maen nhw'n 'blasu' gyda'u traed.
Mae 4 adain gan iâr fach yr haf.

### Project Linus

Roedd hi'n hyfryd i gael ymweliad gan un arall o gyn-ddisgyblion Ysgol Tal-y-bont yn ystod y mis. Mae Jenny yn un o wirfoddolwyr lleol Prosiect Linus ac maent yn darparu offer ac adnoddau i roi ymdeimlad o ddiogelwch a chysur i blant a phobl ifanc sy'n sâl neu sy'n teimlo'n ansicr. Mae'n amlwg fod y bobl sy'n gysylltiedig gyda'r elusen yma wedi bod yn gweithio'n galed dros y cyfnod clo yn gwau blancedi cysur ac esgidiau gwlân arbennig. Diolch yn fawr am feddwl amdanom yma yn yr ysgol.




## BroAber360

**Helo bawb**, gobeithio eich bod i gyd yn cadw'n iawn. Mae 'di bod yn fis llewyrchus arall ar wefan BroAber360, wrth i fwy o straeon diddorol, amrywiol gael eu cyhoeddi a lot o waith da fynd mlaen tu ôl i'r llenni. Un stori wych sydd 'di bod ar y wefan yn ddiweddar ydy'r diweddaraf am lyfrau Gwasg Gomer yn cyrraedd Y Lolfa, gan Mair Nutting a Betsan Siencyn. Hefyd, cynhaliwyd sawl sgwrs o gwmpas y sir ynglŷn â chyfres o ddigwyddiadau – cadwch lygad allan am y diweddaraf! Os rydych eisiau dysgu mwy am BroAber360, mae croeso i chi gysylltu â mi ar danieljohnson@golwg.com.

### Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch

Gan ddilyn canllawiau Covid Llywodraeth Cymru, daeth dwsin o aelodau'r gangen at ei gilydd wyneb yn wyneb am y tro cyntaf ers misoedd lawer. Cyfarfu'r gangen ar bnawn Llun heulog yng ngardd un o'r aelodau gyda'r bwriad o drefnu gweithgareddau. Bu'r sgwrsio'n frwd dros baned a chacen a chytunwyd i gwrdd yn rheolaidd yn ystod y misoedd nesaf. Oherwydd y tywydd gwlyb (iawn!!) ni lwyddwyd i fynd ar y daith gerdded a drefnwyd ond mwynhawyd paned a chacen yng nghaffi Cletwr yn lle hynny.

Byddwn yn cwrdd nesaf yn y Neuadd Goffa bnawn Llun 14 Mehefin am 2 pan fydd Sian Stacey, sydd newydd symud i fyw i Daliesin, yn dod atom i sôn am ei gwaith.




**Bu Liz Roberts yn brysur iawn yn ystod mis Mai yn cerdded 100 milltir fel ran o ymgyrch codi arian yr elusen Breast Cancer Now. Mae Liz yn gwerthfawrogi gwaith yr elusen yn fawr – elusen sy'n cynnig cymorth a gofal ardderchog ynghyd â chefnogi ymchwil yn y maes – gan iddi hi elwa o'r cymorth ei hun. Llongyfarchiadau mawr i Liz ar gerdded y 100 milltir ac am godi £448.**

# PORTREADAU ARVID



**Mae dros deugain mlynedd wedi mynd heibio ers i'r diweddar J R Jones ymweld â Nyrs Evans a llunio ysgrif ddifyr amdani i gyd-fynd â'r ffotograff hyfryd hwn a dynnwyd gan Arvid a ymddangosodd yn rhifyn Tachwedd 1980.**

Yn ôl yr ysgrif roedd Nyrs Evans yn enedigol o Swyddffynnon ond daeth i wasanaethu ardal Glandyfi a Llangynfelyn wedi'r Ail Ryfel Byd. Roedd wedi derbyn hyfforddiant eang cyn hynny gan ennill y cymwysterau SRN yn ysbyty Llandochau Caerdydd ac SCM yn Llundain.

Ceir disgrifiad da o'i gwaith yn yr ysgrif: 'Yn y dyddiau hynny byddai'r mamau yn geni eu plant adref, a byddai hithau'n gorfod galw bob dydd am bum wythnos a sicrhau bod popeth yn iawn. Archwiliai ddannedd a phennau'r plant yn gyson yn yr ysgolion, gweithio powltis i'r sawl a ddioddefai o'r pliwrisi, niwmonia neu'r carbwncl. Troi heibio'r meirw, heb son am y llu o fan bethau y disgwylid iddi eu cyflawni, a rhywun neu gilydd yn siwr o'i phoeni pan nad oedd angen.'

'Yn ystod ei blynyddoedd cyntaf gwelodd dlodi a newyn mewn llawer cartref, ac er na fyddai Nyrs Evans yn barod i ddadlennu unrhyw gyfrinach amdani'i hun, gwyddom iddi droeon brynu llawer torth o fara ymhlith pethau eraill i lenwi ychydig ar ambell gwpwrdd gwag, a thalu o'i phoced ei hun am ddillad lle nad oedd un math o bilyn yn barod i ddisgwyl plentyn. Mae'r cymwynasau hynny yn dweud y cyfan!'

Ceir sawl stori ysgafn am ei phrofiadau gan gynnwys: 'Cafodd ei galw i gartre i droi heibio'r wraig, a'r gŵr wrth ei phenelin yn derbyn pob dilledyn i'w losgi. Sylwodd bod darn caled ar un o ddillad isa'r wraig, ac o graffu'n fanylach gwelodd boced fechan wedi'i gwnio y tu mewn, ac ynddi gan punt, ond ni chafodd gymaint â diolch pan drosglwyddodd yr arian i'r gŵr.'

Ar alwad arall: 'Ni allai lai na chwerthin wrth gofio'i hun yn cyrraedd cartre arall, pan gerddodd i'r tŷ 'roedd clamp o geiliog braf yn fflapian ei adennydd ar ben y bwrdd, a'r mochyn yn cysgu ar y mat o flaen y tân.'

Mae'r ysgrif yn gorffen gyda'r deyrnged:'Cofiwn gydag edmygedd am Nyrs Evans a'i thebyg a roes o'i gorau i leddfu poen ac ysgafnhau baich, ac ymgeleddu'r claf a'r hen, heb anghofio y cymwynasau di-sôn amdanynt a gyflawnodd yn dawel. Dyma'r nodweddion a'i gwnaeth yn nyrs mor arbennig!'.

Un peth sydd ar goll yn yr ysgrif yw enw bedydd Nyrs Evans. Nyrs Evans fyddai i bawb yn yr ardal mae'n siwr ond 'sgwn i a ydi un o'n darllenwyr hŷn yn gwybod ei henw bedydd?










# TÎM TALWRN TAL-Y-BONT

**Daeth taith Tîm Talwrn Tal-y-bont i ben am eleni wrth iddynt golli yn yr ail rownd. Darlledwyd gornest Tal-y-bont yn erbyn y Chwe Mil nos Sul 30 Mai ar raglen Talwrn y Beirdd, Radio Cymru a dyma flas o'r cynnyrch wnaeth sicrhau sgôr o 71.5 i'r tîm lleol, o dan gapteiniaeth Gwenallt Llwyd Ifan. Yn anffodus cipiodd y gwrthwynebwyr 72 o farciau sy'n golygu mai nhw sydd yn mynd ymlaen i'r 8 olaf. Gall y tîm gario eu pennau yn uchel, fodd bynnag, wrth i'w sgoriau yn Rownd Un a Dau fod yn uwch na llawer o'r enillwyr. Mae modd gwrando ar y cyfan ar BBCSounds.**

**Cywydd (heb fod dros 12 llinell): Dileu**
(*Ar fainc dan gastell Aberystwyth*)

Carreg las dan fur castell
a chwmwl meddwl ymhell.
Ni ranna air o'i hanes,
un gair o werth yn y gwres.
A'r gwylanod sy'n codi
o furiau ein horiau ni.
O un i un diflannu
o'r fainc wna'r hen griw a fu.
A'r don o'r gored yno,
yn cario coed caeau'r co'.
Ac yno craig ei henoed
yw cadair wag cadw'r oed.

Gwenallt Llwyd Ifan

**Cân ysgafn i ddau lais: Sgwrs rhwng carcharor ac ymwelydd**

Yng ngharchar Llwyn-y-wermod mae Dave a'i wedd yn drist,
Ac euthum draw i'w weled, er bod hyn yn *off piste*.
'Sut wyt ti', holais innau 'sut mae nhw yn dy drin?'
Gan estyn iddo'r pecyn oedd yn fy mhoced tin.

*'Von Pfeffel bach, fy nghyfaill, ble wyt ti wedi bod?*
*Sdim sens fy mod i yma, a neb yn canu 'nghlod.*
*Beth sgen ti yn y pecyn? O dyro i mi'n glou*
*Cyn delo Matt a Rishi i'w ddwgyd, na gwd boi.'*

'Mae'n drist dy weld yn cwyno', dywedais i wrth Dave,
'Rwyf newydd ddod o Chequers lle maent yn cynnal rêf,
Sdim neb yn gwisgo mwgwd, arianwyr sy'n mhob man,
Yn cynnig cildwrn swmpus i bawb sy'n cymryd rhan.'

*'Mae hyn yn anghredadwy, sut wyt â'th draed yn rhydd,*
*A phob un dodji arall dan glo trwy'r nos a'r dydd?'*

'Wel David bach', dywedais, 'rhaid i ti ddysgu tric,
Sef sut i ddwedyd celwydd a hynny mewn ffordd slic,
A dweud y celwydd hwnnw yn amal, amal, iawn,
Nes bod pob gair o'th enau yn adlewyrchu'th ddawn.
Yn olaf, o flaen gwydr, sbacha dy wallt a'th dei,
Cei rwydd hynt gan y werin. Ti'n deall?'

*'Odw glei!'*

Phil Davies

## Biosffer Dyfi

Ardaloedd sy'n hyrwyddo cadwraeth bioamrywiaeth a defnydd cynaliadwy o adnoddau er budd pobl leol ag eraill yw **Biosfferau UNESCO**.
Mannau i ddysgu, profi ac arwain gwella rheolaeth yr amgylchedd.

**Biosffer Dyfi** yw'r unig Fiosffer yng Nghymru. Cydnabydda bwysigrwydd yr ardal, a'r hyn ellir ei wneud i ganfod atebion fydd yn caniatáu inni oll fyw mewn modd mwy cynaliadwy.
Gallwch ganfod rhagor am yr hyn a wnawn trwy ymweld â'n gwefan **www.biosfferdyfi.cymru**.

Edrychwch ar ein harolwg: **www.surveymonkey.co.uk/r/dyfi**, os gwelwch yn dda, i roi gwybod inni am eich teimladau, a'n helpu i adeiladu Biosffer a fydd yn gosod ein ardal ar flaen datblygu cynaliadwy.










## Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

**Cyfarfod Blynyddol 2021**
Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr ar "Zoom" ar Nos Lun, 24 Mai 2021. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd y byddai'r Cyng. Megan Mai, Maes-y-Felin, yn gwasanaethu fel Cadeirydd newydd y Cyngor am y flwyddyn i ddod ac y byddai'r Cyng. Catrin Davies yn parhau yn y swydd o fod yn Is-Gadeirydd y Cyngor.

Penodwyd cynrychiolwyr ar gyfer Pwyllgor y Cylch Meithrin a Phwyllgor Ardal Ceredigion Un Llais Cymru a chytunwyd hefyd pa Gynghorwyr fydd yn eistedd ar y gwahanol is-bwyllgorau.

Estynnwyd diolch gan y Cadeirydd dros y flwyddyn diwethaf sef Cyng. Nia Richards, i'r Cynghorwyr a'r Clerc am eu gwasanaeth a'u cefnogaeth yn ystod y flwyddyn cyn trosglwyddo'r gadair i'r Cyng. Megan Mai ar gyfer y cyfarfod misol.

**Cyfarfod Misol Mis Mai 2021**
Cychwynwyd y cyfarfod misol gyda'r Cadeirydd newydd, Cyng. Megan Mai, yn diolch i'r Cynghorwyr am y fraint o gynrychioli'r Cyngor fel Cadeirydd unwaith eto ac yn diolch i'r cyn Gadeirydd, Cyng. Nia Richards, am ei gwaith caled yn arwain y Cyngor yn ystod blwyddyn hynod o anodd i'r gymuned gan ystyried y sefyllfa gyda chyfyngiadau coronafeirws a phroblemau eraill.

**Problemau gyda'r gwasaneth broadband yn ardal Tal-y-bont**
Yn dilyn rhagarweiniad gan yr Is-Gadeirydd, Cyng. Catrin Davies, cafwyd cyflwyniad ar "Zoom" oddi wrth Mr Ian Jones ynglyn â chynllun i weithio llaw yn llaw gyda chwmni Broadway i wella'r gwasanaeth broadband yn ardal Tal-y-bont. Atebodd Ian nifer o ymholiadau oddi wrth y Cynghorwyr ac yn dilyn trafodaeth cytunwyd i gefnogi'r prosiect.

**Dwy sedd wag ar y Cyngor Cymuned**
Eglurodd y Clerc ei fod wedi derbyn gohebiaeth oddi wrth David Jones ac Alexis Flores Williams yn egluro eu bod nhw yn ymddiswyddo fel aelodau o'r Cyngor Cymuned. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd ysgrifennu i David ac Alexis i ddiolch iddynt am eu gwasanaeth ar y Cyngor a chychwyn y broses o hysbysebu dwy sedd wag i'w llenwi ar y Cyngor Cymuned.

**Cae Bach Tal-y-bont**
Cafwyd diweddariad oddi wrth Cyng. Nia Richards ar ddatblygiadau yn y Cae Chwarae a Chae Bach Tal-y-bont. Cadarnhawyd y byddai y ddau fwrdd picnic newydd yn cael eu gosod yn y Cae Bach yn fuan a bod gwirfoddolwyr wedi bod yn brysur yn glanhau y Cae Chwarae.

**Sefyllfa Coronafeirws**
Cafwyd diweddariad oddi wrth y Cynghorydd Sir, Cyng. Ellen ap Gwynn, ar sefyllfa y coronafeirws o fewn y Sir. Cadarnhawyd fod pethau yn parhau i edrych yn obeithiol gan edrych tua'r dyfodol. Mi fydd cyfleusterau yn parhau i agor i fyny yn yr wythnosau i ddod ond fe ddylai pawb barhau i fod yn ofalus.

**Materion Ffyrdd a Materion Eraill**
Cafwyd diweddariad ar y sefyllfa gyda nifer o eitemau eraill sydd angen sylw o fewn y Gymuned yn cynnwys diweddariad am faterion yn y fynwent. Cafwyd trafodaeth ynglyn â phroblemau gyda baw cŵn ym mhentref Tal-y-bont a chadarnhaodd Cyng. Ellen ap Gwynn ei bod hi wedi cael trafodaeth gyda'r heddlu ynglyn â phroblemau gyda beiciau modur yn yr ardal.

Rab Jones
Clerc Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr
rab.jones@btinternet.com / 07831 402 002 / 07904 716 180




**Wel, am wythnos! Rwyf yn ysgrifennu hwn ar ddiwedd wythnos hanner tymor, a sut newid oedd hynny! Ar ôl llawer o fisoedd tawel, mae'r holl fyd wedi bod drwy ein drysau. Ail-agorwyd y caffi tu mewn ychydig wythnosau nôl, ond gyda chyfyngiadau – llai o fyrddau nag arfer, dim man chwarae i'r plant, system un ffordd ayyb. Mae hyn wedi gwneud gwahaniaeth mawr. Fel rydych chi'n cofio, roedd gŵyl y banc ar ddechrau mis Mai yn dipyn gwlyb, ac felly diwrnod tawel. Ond y tro 'ma, waw! Mae'n aruthrol gweld Cletwr eto fel y dylai fod – llawn bobl a bywyd, llawn chwerthin a chlebran ac egni.**

Braf ei weld, ond wrth gwrs, mae hi wedi bod yn wythnos dra anodd i'r staff a gwirfoddolwyr, bron dim amser iddyn nhw anadlu rhwng cymryd archebion, gwneud coffi, gweini a chlirio'r byrddau. Diolch o galon iddyn nhw oll am eu gwaith dwys. Gobeithio cawn ymlacio tipyn am ychydig wythnos nawr, tan wyliau haf yr ysgolion, ond rydyn ni'n amau bydden ni'n dal i fod yn brysur, wrth i bobl llenwi'r meysydd carafanau eto.

Mae'r wythnos diwethaf wedi bod yn anos oherwydd diffyg staff. Rydym yn chwilio am ddau berson i lenwi swyddi gwag – Rheolwr Busnes Gynorthwyol a Rheolwr Cegin Gynorthwyol. Mae'r ddau yn swyddi parhaol, 30 awr yr wythnos, cyflog da. Ac yn llawer o hwyl hefyd, gan weithio dros fusnes sy'n mor bwysig yn ein cymuned. Os oes diddordeb gennych, mae manylion llawn ar ein gwefan.

Gaf i hefyd gofyn eto a oes unrhyw un eisiau ymuno â ni fel gwirfoddolwr? Mae llawer o orchwylion i'w gwneud, ac mae'n siŵr bydd rhywbeth ar gael sy'n addas i bawb. Eto, llawer o hwyl a chyfle i gymysgu'n saff gyda chriw gwych o bobl.

Newyddion da – mae mefus Penlônlas bellach yn y siop. Mae rhywbeth gwbl newydd hefyd, pitsas gan gwmni Dylan's o Langefni yn yr oergell, ac wrth gwrs llaeth ac ysgytlaethau gan ein fferm leol, teulu Jenkins o Gerrigcaranau Uchaf. Mae'r ysgytlaethau yn lysh!



# O Dal-y-bont i Dop Kilimanjaro!



**Un o adeiladwyr mwya' crefftus ac adnabyddus y fro yw Mike 'Spike' Rowlands, Maes-y-felin, Tal-y-bont. Wedi'i eni a'i fagu ym Machynlleth mae Spike â diddordeb hir-oes mewn pob math o chwaraeon a gweithgareddau awyr agored.**

Mae'n ddilynwr brwd o rygbi a bocsio ac yn hoff iawn o 'sgota a saethu. Mae Spike a'i wraig Elaine, yn mwynhau cerdded a chrwydro Eryri ac Ardal y Llynnoedd. Ag yntau eisoes wedi dringo yn yr Himalayas cododd chwant arno i ymestyn ei orwelion a mynd ati i herio Mount Kilimanjaro yn Nhanzania! Mae Kilimanjaro mynydd ucha' Affrica yn 5,895 m (19,341 tr) o'i gymharu â Phumlumon sy'n 752 m (2,468 tr), Cadair Idris sy'n 893 m (2,930 tr) a'r Wyddfa sy'n 1,085 m (3,560 tr).

Bu Mike yn paratoi yn ddyfal am y gamp drwy ddringo Cadair Idris sawl gwaith yr un dydd ynghyd â cherdded dros 20 milltir! Aeth ati i herio *Kili* ym Mawrth 2020 gan wasgu'r antur 10 niwrnod i fewn jyst cyn bod y byd yn cau lawr oherwydd COVID-19. Roedd y grŵp o chwech roedd Spike yn rhan ohono yn dod o bob cwr o'r byd. Chwe unigolyn yn cwrdd mewn gwesty yn Nhanzania, pryd o fwyd, cyflwyniadau cryno a bant â nhw!

Roedd cyferbyniad y tirwedd ar *Kili* yn anhygoel, o goedwigoedd ffrwythlon ar y llethrau is i anialwch *lunar* ac wedyn trwch o eira yn yr uchelfannau! Mae 60 % o bobl sy'n herio *Kili* yn methu cyrraedd y copa. Mae yna nifer sydd wedi cyrraedd copa Everest wedi ffaelu ar *Kili* a'r 200 m ola' yn cael eu cydnabod am fod yn eithriadol o heriol. Mae'n amgylchedd digyfaddawd a'r diffyg ocsigen yn neud pob cam yn llafurus a phoenus. O ganlyniad rhaid cyfyngu ar y cit a dillad craidd sydd wir angen arnoch a rhaid cyfiawnhau pob dim.

Roedd y grŵp yn cael ei gefnogi gan dîm bach o dywyswyr a phorthorion i gario adnoddau, y porthorion yn mynd o flaen y grŵp a gosod y pebyll a'r offer coginio. Felly roeddent yn hollol ddibynnol ar y tywyswyr. Roedd rhan fwyaf o'r cerdded yn cael ei wneud yn y boreau ond doedd dim patrwm a newid cyson yn yr hinsawdd yn medru torri ar oriau cwsg!

Roedd y tymheredd ar *Kili* yn cwympo i rhwng −15 a −20 °C. Yn groes i'r ddelwedd cyffredin o Affrica roedd *Kili* yn oer, gwlyb gyda llawer o eira. Rhaid gwisgo *cramponau* i gyrraedd y copa ac roedd dringo o dan y fath amodau yn hynod anodd. Testament i ffitrwydd a gwydnwch Spike oedd ei fod 23 mlynedd yn hŷn na'r aelod nesa o'r grŵp. Roedd profiad Spike o gerdded yn enwedig yn yr Himalayas, yn amhrisiadwy a'i brofiad yn dangos yr angen i bwyllo er mwyn cyrraedd y copa - marathon yn hytrach na sbrint! Gyda dyfalbarhad safodd ar y copa am 08.00 ar y 13 Mawrth 2020. Roedd y daith lawr yn haws a'r grŵp bron yn sgïo ar y llethrau cerrig rhydd a mân.

Yn ôl Spike roedd y dringo cyflym a digyfaddawd ar *Kili*, yn wahanol iawn i grwydro'r Himalayas a oedd yn fwy hamddenol gan roi mwy o gyfle i werthfawrogi gorfoledd y golygfeydd.

Tra bod Spike wedi troedio'r Himalayas a dringo *Kili* mae 'na un copa enwog agosach at adre' nad yw e erioed wedi cyflawni – Moel Llyn 521 m (1,709 tr)! Mae 'na fwriad i wneud yn iawn am hyn yn 2021! A beth am y daith bell nesaf? Nid ail ymweld â heriau *Kili* ond bwrw eilwaith i'r Himalayas. Chwarae teg iddo am gyflawni'r fath gamp arwrol a phob lwc ar ei antur nesa'.

Gerwyn Jones


## Swyddi gydag ecodyfi

**1. Swyddog Teithio Iach (prosiect Trywydd Iach)**

Ydych chi'n cerdded neu feicio?
Awyddus i helpu pobl teithio heb ddibynnu cymaint ar geir?
Amcan y swydd ydy cynyddu cyfranogiad y gymuned i ddatblygu opsiynau teithio diogel a charbon isel yn ardal Biosffer Dyfi.
Mae sgiliau cyfathrebu a threfnu dwyieithog,
yn fodlon mentro, a gwybodaeth leol eu hangen.
Swydd 18.5 awr/wythnos.
£23,600 y flwyddyn *pro rata* h.y. £11,800.

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND
www.ecodyfi.cymru
CoedLleol SMALL WOODS WALES
www.coedlleol.org.uk

**2. Swyddog Gweinyddol Ariannol**

I sicrhau rheolaeth ariannol gadarn ar y prosiect Tyfu Dyfi a ragwelir, ac ar ecodyfi yn ei gyfanrwydd.
Rydym yn chwilio am rywun sydd â gwybodaeth gadarn am weithdrefnau ariannol a chyfrifyddu ac sydd â sgiliau trefnu rhagorol.
Mae hon yn swydd gyfrifol a fydd yn darparu profiad amhrisiadwy o reoli sefydliad 'trydydd sector'.
Swydd 32 awr/wythnos.
£25,000 y flwyddyn *pro rata* h.y. £21,621.62.

Llywodraeth Cymru Welsh Government

**Gwybodaeth a ffurflenni**
www.ecodyfi.cymru neu andy@ecodyfi.cymru
Y Plas, Machynlleth SY20 8ER
01654 702630
**Dyddiad cau: 10:00 dydd Llun 5ed o Orffennaf 2021**


# Difrod yn y Cae Bach



Yn rhifyn mis Ebrill o'r papur adroddwyd bod difrod wedi ei wneud i botel sy'n dal hylif diheintio ar un o'r giatiau sy'n arwain i'r Cae Bach yn Nhal-y-bont. Mae'n siomedig gorfod adrodd fod yr un peth wedi digwydd eto, y tro hwn i'r botel sydd ar y giât gyferbyn â Maes-y-deri. Sylwodd un o'r Cynghorwyr Cymuned ar nos Sul, 30 Mai, fod y botel angen ei llenwi â hylif diheintio, a phenderfynod fynd i'w llenwi drannoeth. Pan aeth at y giât ar fore Llun, Gŵyl y Banc, gwelodd fod rhywun neu rywrai wedi rhwygo'r botel oddi ar y ffens wrth y giât a malu'r teclyn plastig sy'n pwmpio'r hylif i'r llaw. Gadawyd y botel, a'r blwch plastig a oedd yn ei dal, ar y llawr.

Hoffai'r Cyngor Cymuned atgoffa pawb na ellir cadw'r maes chwarae yn agored oni bai fod yr offer diheintio priodol wedi ei osod ar y giatiau i ddiogelu iechyd y cyhoedd, sef yn yr achos hwn, iechyd y plant a'u rhieni sy'n defnyddio'r maes chwarae. Byddai'n drueni pe bai ymddygiad anghyfrifol rhai ffyliaid yn sbwylio popeth i bawb arall.

Yr ydym yn galw ar y cyhoedd i gadw llygad ar y poteli ar y ddwy giât ac adrodd wrth Glerc y Cyngor, Rab Jones, os gwelant fod rhywun yn ymyrryd â nhw: rabjones@btinternet.com; 07831 402 002 neu 07904 716 180.

# Dan Do

**Mae'r daith fer at y tŷ yn hudolus. Cerdded drwy'r cae, ucheldir Cwm Leri yn y cefndir, a chân yr adar a murmur y nant yr unig sŵn i darfu ar y llonyddwch. Yna yng nghornel pellaf y cae daw Tŷ'r Onnen i'r golwg, llety gwyliau ar fferm Moelgolomen, Bontgoch. Mae'r enw yn hynod addas oherwydd mae'r tŷ yn nythu o gwmpas hen onnen, yr adeilad a'r goeden yn briodas berffaith.**



Breuddwyd Rhodri a Sarah Lloyd-Williams yw'r fenter. Roeddent wedi penderfynu mynd am y farchnad gwyliau i arall gyfeirio a chynyddu incwm y fferm ond am gynnig rhywbeth gwahanol, llety a fyddai yn ei dro yn apelio at sector arbennig o'r farchnad. Cynlluniwyd y tŷ gan Iwan Jones Gellimanwydd Tal-y-bont a Carwyn Lloyd Jones o Bow Street oedd yn gyfrifol am yr adeiladu. Mae Carwyn yn saer coed amryddawn a chreadigol sydd wedi ennill nifer o wobrau am ei waith cynllunio ac adeiladu gan gynnwys *Cabins in the Wild* ar Channel 4 ac mae hefyd wedi ymddangos ar Creu Lle Mawr o Le Bach ar S4C.





Mae muriau Tŷ'r Onnen oddi mewn ac allan o goed cedrwydd lleol a'r ynysu o wlân dafad yn sicrhau fod y tŷ yn glyd ac yn gynnes. Mae balconi yn cylchu y muriau allanol i roi golygfeydd o fynyddoedd Cambria o bob cyfeiriad. Paratoir trydan drwy baneli solar ac mae stof goed yn rhoi gwres ychwanegol. Cynllun agored un lefel tu mewn, cegin, man cysgu a lolfa nesa at ei gilydd a drysau dwbl yn agor o'r lolfa i'r balconi. Stafell ymolchi a chawod ar wahân. Mae 'na gawod arall tu allan, y peth agosaf i gawod o law – chi a natur yn ymolchi o dan y lloer a dail y goeden yn gwmpeini! Lluniwyd y cyfan yn bwrpasol i'r adeilad gan gynnig llety moethus i gyplau.

Mae pob cyfleuster wrth law, ond, ac efallai fod hyn yn ond pwysig i rai, dim teledu na chyswllt â'r we. Felly mae arhosiad byr yn Nhŷ'r Onnen yn caniatáu i chi ddychwelyd at bleserau syml bywyd, cyfnod i ffwrdd o wasgfa'r byd. Amser i werthfawrogi cwmni, sgwrsio, darllen, blasu pryd o fwyd a gwydriad o win tra'n rhyfeddu at ogoniannau natur o'ch cwmpas.


Ac yn ôl Sarah dyma union ddyhead nifer cynyddol o gwsmeriaid, yn arbennig felly yn sgil y troi at wyliau adref yn hytrach na thramor. Eraill yn dewis ymlacio yn heddwch a hyfrydwch Canolbarth Cymru ac yn awchu am yr antur o aros mewn adeilad sy mor ddeniadol a thrawiadol â'r golygfeydd ar y stepen drws. Mae Tŷ'r Onnen yn llawn tan ddiwedd Hydref a chymaint y galw fel bod ail fwthyn – Tŷ'r Dderwen – yn cael ei godi yng nghornel arall o'r cae. Croesawyd ymwelwyr o bob cwr o Brydain a nawr gyda llacio cyfyngiadau COVID mae Rhodri a Sarah yn edrych ymlaen at weld mwy yn dringo'r hewl gul at Moelgolomen a Thŷ'r Onnen. Byddant un ag oll yn sicr o arhosiad dan do unigryw.

GIE

Gallwch ganfod mwy am Tŷ'r Onnen ar wefan *Wild Welsh Treehouses* (www.wildwelshtreehouses.com)

## Paradwys i Beillwyr – yr enillwyr

Mae Ros yn Nhal-y-bont wedi troi ei gardd ffrynt gyfan yn lle arbennig iawn i beillwyr:




Mae Lisa Tomos ym Mhentre-bach yn llwyddo i ddenu gwenyn unigol o bob math i'w pharadwys o ardd hithau:



Ac mae Cindy Harris yn Nhre Taliesin wedi gadael i frocoli flodeuo a phlannu gwenith yr hydd fel gwrtaith gwyrdd ac i ddarparu porthiant i beillwyr:

**Hoffai Cletwr ddiolch i bawb a ddangosodd ddiddordeb yn ein cystadleuaeth "Paradwys i Beillwyr", yn arbennig y rhai a anfonodd gais aton ni! Daeth Lisa Tomos a Ros Mortis yn gydradd gyntaf a Cindy Harris yn ail, gan ennill gwobrau gwenynaidd o siop Cletwr a derbyn llawer o werthfawrogiad gan ein pryfed peillio mae'n siŵr!**



# Colofn Elin Jones

**Wel, mae'r etholiad heibio a mi oedd hi'n dipyn o sioc i mi mae'n rhaid dweud i glywed y canlyniad ar brynhawn Gwener cyntaf Mai yn Ysgol Bro Teifi yn Llandysul.**

Roeddwn yn gobeithio, wrth gwrs, i gael fy ethol unwaith eto i gynrychioli Ceredigion, ond roedd maint y mwyafrif yn annisgwyl. Diolch i'r 16,946 person a roddodd eu ffydd ynof fi i barhau gyda'r gwaith. Roedd clywed y ganran o 55.1 % a'r mwyafrif o 12,145 yn sioc fawr.

Rwyf ar ddeall erbyn hyn, mai dyma'r mwyafrif mwyaf ond un yn hanes etholiadau datganoledig yng Nghymru. Cafodd Dafydd Wigley 12,273 yn etholiad cyntaf y Cynulliad yn 1999 – 128 yn fwy.

Hoffwn ddiolch i bobol Ceredigion am fy ailethol unwaith eto. Dyma'r chweched tro i mi gynrychioli Ceredigion yn y Senedd. Mae'n fraint o'r mwyaf i dderbyn gymaint o gefnogaeth, yn enwedig ar ôl blwyddyn anodd i nifer yng Ngheredigion a thrwy Gymru.

Rhaid i mi ddiolch i bawb a gyfrannodd at yr ymgyrch anarferol yma. Diolch i bawb am y negeseuon o gefnogaeth, ac am roi o'u hamser i ddosbarthu taflenni neu gnocio ar ddrysau pan roedd yna gyfle.

O dan yr amgylchiadau Covid, dim ond tua tair wythnos o ganfasio oedd ar gael i ni yn ôl y rheoliadau. Mae pobl Ceredigion yn hoffi siarad yn uniongyrchol gyda'u cynrychiolwyr, felly roeddwn yn awyddus i wneud hynny gymaint fedrwn i. Braf oedd cael y cyfle i sgwrsio gyda nifer ohonoch, a diolch am eich croeso. Diolch hefyd i bawb a weithiodd ar ran y Cyngor Sir i weinyddu'r etholiad a chyfrif y pleidleisiau.

Mae'r gwaith yn awr yn parhau fel Aelod o'r Senedd dros Geredigion, gyda'r flaenoriaeth tymor byr wrth gwrs ar ddiogelu pobl Ceredigion ac adfywio ein heconomi, wrth i ni barhau i adfer o'r pandemig.

Mae'n fraint hefyd i gael fy ailethol yn Llywydd y Senedd. Yn ystod y Senedd ddiwethaf, roeddwn yn falch iawn o weld ehangu cyfraniad pobl ifanc at ein democratiaeth. Rwy'n edrych ymlaen at fedru parhau gyda'r gwaith yma a mwy.

Llongyfarchiadau hefyd i'r 4 Aelod o'r Senedd a gafodd eu hethol dros y Canolbarth a'r Gorllewin – Eluned Morgan, Joyce Watson, Cefin Campbell a Jane Dodds. A llongyfarchiadau gwresog iawn i Dafydd Llywelyn ar gael ei ail-ethol yn Gomisiynydd Heddlu Dyfed-Powys.

Mae croeso i chi gysylltu os allaf fod o unrhyw gymorth ichi, drwy ffonio fy swyddfa ar: 01970 624516 neu e-bostio: elin.jones@senedd.cymru










**Afiaith**
Gwasanaeth Cyfieithu
Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol
Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com



# CHWARAEON

## COLLI CYN-LYWYDD



**Mae Clwb Golff Borth ac Ynyslas wedi colli un o hoelion wyth y clwb yn y gorffennol, gyda marwolaeth Rob Mair yn 94 mlwydd oed.**

Daeth Rob o ogledd Lloegr gyda'i wraig Margaret i fyw ym Maesnant, Eglwys-fach, a bu'r ddau yn weithgar yn y gymuned. Gweithiai yn Nhrawsgoed am rai blynyddoedd ac yn ystod y cyfnod hwnnw, ac wedi iddo ymddeol, treuliodd llawer o'i amser hamdden ar y cwrs golff. Gwirfoddolodd i gynorthwyo'r clwb yn weinyddol gan ddod yn Ysgrifennydd Mygedol rhwng 1988-1991. Yn 1994 etholwyd ef yn gapten ac ef oedd Llywydd y clwb yn 2002-4. Roedd yn gefnogol iawn i aelodau newydd y clwb ac hoffai mynychu tripiau golff, gan gynnwys y teithiau bywiog i Woodenbridge yn yr Iwerddon.

Wedi i'w wraig farw yn 2012, symudodd i fyw at ei ferch yn Lloegr, ond yn 2019 daeth ar ymweliad i'r clwb a dyma pryd y tynnwyd y llun uchod ohono gyda dau hen stejyr arall sef Mike Price a Dafydd Raw-Rees (yn eistedd i'r dde iddo).

## I'R EUROS

**Llongyfarchiadau i Rhys Norrington-Davies, Tŷ'n Cae, Tal-y-bont, ar gael ei ddewis i garfan Cymru ar gyfer cystadleuaeth Euro 2020 sydd i'w chynnal blwyddyn yn hwyr yn ystod haf eleni. Wrth i *Papur Pawb* Mehefin gyrraedd y siopau, bydd Rhys a gweddill y chwaraewyr yn paratoi ar gyfer gêm gyntaf y gystadleuaeth yn erbyn y Swistir yn Baku, Azerbaijan.**






## GOLFF

**Mae rhai o golffwyr gorau ardal *Papur Pawb* wedi cael cryn lwyddiant yn ystod yr wythnosau diwethaf ar gwrs golff Borth ac Ynyslas.**

Ar 16 Mai enillwyd Cwpan Cecil Wright gan David Griffiths, Maes-y-deri, Tal-y-bont, gyda sgôr Stableford o 37 pwynt ar ei handicap o 6. Ymhlith y merched, enillodd capten y clwb Karen Evans, Nantllain Isaf, Tal-y-bont, Gwpan Horton gan guro Angharad Basnett, Bont-goch, yn y rownd derfynol. Llongyfarchiadau iddynt.

Mae angen llongyfarch Angharad hefyd gan iddi gael ei dewis yn aelod o garfan Cymdeithas Golff Canolbarth Cymru ar gyfer y flwyddyn 2021.






## Y Gair Olaf



I'r rhai sydd ddim yn gwybod, dw' i'n byw dwy filltir o Dal-y-bont, i fyny ar y bryn i'r de o'r pentref. Mae'r fferm mewn lle "godidog, gyda golygfeydd ardderchog". Rhaid bod hynny'n wir oherwydd bob tro bydd rhywun diarth yn dringo'r rhiw i'm cartref ac yn edrych allan dros fae Ceredigion, dyna fydda' i'n ei glywed ganddynt. Gweld yr haul yn machlud dros ynys Enlli a Braich y pwll yn estyn draw i fynyddoedd Eryri, Cadair Idris a mynyddoedd Meirionydd yn dipyn nês, a'r afon Dyfi a chors Fochno yn arwain y llygad yn ôl i gyfeiriad y Borth a Llandre. Medraf weld hyn i gyd o ffenest y tŷ. Ac o weld e' bob dydd, ma' rywun yn tueddu i'w gymryd yn ganiatol; ond i ddieithriaid mae'r olygfa yn wefreiddiol.

"Dech chi mor ffodus, byw a'r fath olygfa."

Mae'n wyntog yma ar adegau, ac yn y gaeaf mae'r allt serth sy'n arwain at y fferm yn beryglus o lithrig. Yn aml, 'den ni yn y niwl ac yn medru gweld dim. Ond am ryw rheswm, pan mae'r tywydd yn arw a'r gwynt yn rhuo, does neb yn dod i weld yr "olygfa odidog". Rhaid cludo sbwriel am filltir cyn dod at y man lle mae'r Cyngor Sir yn ei gasglu ac mae trafnidiaeth gyhoeddus yn bellach fyth. Y gwir yw, fel llawer peth arall mewn bywyd, dyw e' ddim yn fêl i gyd. Mae gan bob "olygfa odidog" ei bris. Ond wedi dweud hynny, faswn i'n newid dim.

David Jones